

Datgelu data y metrigau effaith

Mae Banc Datblygu Cymru yn buddsoddi er mwyn cael effaith. Yn hanesyddol, rydym wedi mesur effaith ein buddsoddiadau drwy niferoedd y buddsoddiadau uniongyrchol, trosoledd y sector preifat a nifer y swyddi sy'n cael eu creu a'u diogelu. Yn 2019, fe wnaethom ddatblygu a gweithredu fframwaith effaith diwygiedig, a ehangodd ein dulliau ar gyfer gwerthuso a mesur effaith, ac a oedd yn cyd-fynd ag Amcanion Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Meysydd Gweithredu Cynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddwyd ein hadroddiad effaith cyntaf o fewn ein Hadroddiad Blynnyddol ar gyfer 2019/20, ond mae datblygu ein model i fesur a rheoli effaith yn brosiect hirdymor yr ydym wedi ymrwymo i'w ddatblygu a'i fireinio ymhellach mewn blynnyddoedd i ddod. Er mwyn sicrhau tryloywder ein heffaith, mae'r canlynol yn cyhoeddi trosolwg o'r sampl a ddefnyddiwyd a'r fethodoleg ar gyfer coladu pob metrig ac adrodd arno.

Methodoleg casglu data

Er mwyn galluogi dealltwriaeth a meincnodi cychwynnol o'r effaith a ddaw o du busnesau sy'n derbyn cyllid gan y Banc Datblygu, gofynnwyd i'r cwsmeriaid lenwi holiadur effaith yn gofyn am wybodaeth am amrywiaeth eang o bynciau sy'n gysylltiedig â'n pedwar thema effaith. Rhaid i bob cwsmer sydd y tu allan i'n portffolio datblygu eiddo sy'n derbyn buddsoddiad newydd lenwi'r holiadur effaith hwn. Yna, bydd yr holiaduron effaith yn cael eu hanfon at gwsmeriaid pob 12 mis ar ben-blwydd eu buddsoddiad gan Fanc Datblygu Cymru.

Mae'r data ar gyfer pob metrig yn cael eu coladu a'u storio gyda gwybodaeth am y buddsoddiad. Mae hyn yn caniatáu i ni ddadansoddi'r data a phob metrig ar sail dyddiad, lleoliad, sector, y math o fuddsoddiad a'r swm. Mae data amrywiaeth a chydaddoldeb, oherwydd eu natur, yn cael eu casglu ar wahân ac adroddir arnynt ar wahân er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a dilyn canllawiau gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Banc Datblygu Cymru'n defnyddio gwybodaeth bersonol, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd neu cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data ar dpo@developmentbank.wales.

Mae'r data yn ein Hadroddiad Effaith diweddaraf yn deillio o'r cyfnod sy'n cychwyn ar 7 Gorffennaf 2019 hyd at 31 Mawrth 2020 lle y dychwelodd 728 o fusnesau holiaduron effaith buddsoddiad. Cafodd nifer o'r rhain eu tynnu o'r sampl oherwydd ansawdd gwael y data. Y canlyniad yw sampl o 705 o fusnesau a adroddodd ddata i ni. Oherwydd ein bod yn dibynnu ar hunan-adrodd ar gyfer nifer o fesurau, mae hyn yn golygu bod rhai o'n setiau data yn anghyflawn neu mae'n bosibl bod camgymeriadau ynddynt.



Methodolegau metrig Ffyniant a Chyfleoedd Byd Eang

Crynodeb o'r metrig effaith	Cyfrifiad y metrig
Nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn yn y bandiau cyflog canolrifol i uchel.	Mae ein cwsmeriaid yn adrodd ar nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn ar sail wythnos 30 awr. Er enghraifft, os yw'r swydd yn golygu gweithio 30 awr neu fwy yr wythnos, yna mae'n swydd amser llawn ac felly'n 1 swydd cyfwerth ag amser llawn. Os nad yw swydd yn un amser llawn, yna bydd angen rhannu'r oriau sy'n cael eu gweithio bob wythnos â 30 i roi'r gyfran o swyddi cyfwerth ag amser llawn sy'n cael eu cynrychioli. Er enghraifft, 18 awr yr wythnos wedi'u rhannu â 30 = 0.6 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Mae'r swyddi cyfwerth ag amser llawn yn cael eu hadrodd gan gwsmeriaid yn y bandiau cyflog sy'n is na £14,999; £15,000-£19,999; £20,000-£24,999; £25,000-£34,999; £35,000+. Pennir y bandiau cyflog hyn fel rhan o'n gofynion adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru fel rhan o'r gwaith o ddarparu Cronfa Fusnes Cymru. Mae cyflog canolrifol i uchel yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio enillion wythnosol canolrifol diweddaraf yr ONS ar gyfer cyflogeion amser llawn yng Nghymru. Mae cyflog isel yn cael ei bennu fel un rhan o dair o'r cyflog canolrifol. Er mwyn cymharu ag ystadegau StatsCymru adroddir y gyfran o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn y bandiau cyflog canolrifol i uchel fel cyfran o'r cyflogeion cyfwerth ag amser llawn sy'n ennill mwy na dwy ran o dair o'r cyflog canolrifol.
Cyfran yr ymatebwyr sy'n allforio a chyfanswm gwerth yr allforion.	Mae allforwyr yn cael eu nodi drwy i'r cwsmer adrodd ar gyfran yr alldro y gellir ei phriodoli i werthiannau sy'n allforion. Mae hyn yn rhoi'r gyfran o'r rheini sy'n allforio i ni a chyfanswm gwerth yr allforion.



Methodolegau metrig yr Amgylchedd a Datgarboneiddio

Crynodeb o'r metrig effaith	Cyfrifiad y metrig
Cyfran y cwsmeriaid sydd â'r gallu i ddewis eu darparwr ynni.	Cyfran y cwsmeriaid sydd wedi llenwi adran yr amgylchedd a datgarboneiddio'r holiadur sy'n cael effaith ar ddewis eu cyflenwr ynni.
Cyfran yr ynni a ddaw o ynni adnewyddadwy.	Mae cyfran yr ynni o ffynonellau adnewyddadwy yn cael ei phennu pan fydd y cwsmer yn adrodd pa ddarparwr ynni yw ei brif gyflenwr. Mae gan bob darparwr ynni ddatgeliad cymysgedd tanwydd safonol sy'n nodi faint o ynni adnewyddadwy sydd yn ei gyflenwad, gan gynnwys cyfartaledd y DU ar gyfer ynni adnewyddadwy yn y cyflenwad o drydan i'r grid cenedlaethol. Defnyddir hyn i neilltuo canran yr ynni adnewyddadwy a ddefnyddir gan bob cwsmer yn ei brif ffynhonnell ynni.



Methodolegau metrig Arloesedd a Chynhwysiant Digidol

Crynodeb o'r metrig effaith	Cyfrifiad y metrig
Cyfran y cwsmeriaid sy'n arloesi yn eu busnesau.	Mae cwsmeriaid yn adrodd nifer y gweithgareddau arloesedd a gynhaliwyd yn ystod y 12 mis blaenorol. Mae gweithgaredd arloesol yn cael ei ddiffinio fel prosiectau Ymchwil a Datblygu ar y Cyd; Nifer y cynnyrch a gyflwynwyd sy'n newydd i'r busnes; Nifer y cynnyrch sy'n newydd i'w marchnad; a Gwelliannau sylweddol i gynnyrch a gwasanaethau sy'n cael eu diffinio fel gwelliannau i fanylebau, cydrannau a deunyddiau technegol, meddalwedd cynwysedig a pha mor gyfeillgar i'r defnyddwyr y mae'r cynnyrch neu'r gwasanaethau sy'n bodoli eisoes. Mae'r gweithgareddau arloesol hyn yn ddangosyddion gwerth ychwanegol a ddiffiniwyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac a adroddwyd ganddi wrth ddarparu Cronfa Fusnes Cymru. Mae cyfran y gweithgaredd yn deillio o lefelau swm y gweithgareddau a wneir.
Cyfran y cwsmeriaid sy'n digideiddio eu busnesau.	Mae'r cwsmeriaid yn adrodd os ydynt wedi defnyddio technolegau wedi'u diffinio i ddigideiddio eu busnesau yn ystod y 12 mis blaenorol. Mae'r technolegau wedi'u diffinio yn deillio o Adroddiad Prydain ar Gyflwr Busnesau Bach ac maent yn cynnwys y mesuryddion deallus a osodwyd; systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid; E-fasnach; meddalwedd cyfrifyddu ar y we; meddalwedd dylunio gyda chymorth cyfrifiadur; awtomatiaeth prosesau; Cyfrifiadura Cwmwl; Dysgu peirianyddol; a Deallusrwydd Artiffisial. Mae cyfran y gweithgaredd yn deillio o lefelau'r gweithgareddau a wneir.



Methodolegau metrig Cymunedau, Iechyd a Chynhwysiant Cymdeithasol

Crynodeb o'r metrig effaith	Cyfrifiad y metrig
Cyfran y perchnogion/cyfarwyddwyr/rhanddeiliaid yn y busnesau y gwnaethom eu cefnogi sy'n dynodi eu bod yn Fenywod	Adeg y buddsoddiad cychwynnol, a dim ond ar adeg y buddsoddiad, mae'r cwsmer yn llenwi adran Amrywiaeth a Chydraddoldeb yr holiadur effaith. Mae'r adran hon yn gofyn i gwsmeriaid adrodd ar nifer y perchnogion/cyfarwyddwyr/rhanddeiliaid sy'n dynodi eu bod yn ddynion neu'n fenywod. Mae'r opsiynau a gynhwysir yn yr adran hon yn dilyn y canllawiau a roddir fel rhan o ofynion adrodd Cronfa Fusnes Cymru.
Cyfran y perchnogion/cyfarwyddwyr/rhanddeiliaid yn y busnesau y gwnaethom eu cefnogi sy'n dynodi eu bod o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig.	Adeg y buddsoddiad cychwynnol, a dim ond adeg y buddsoddiad, mae'r cwsmer yn llenwi adran Amrywiaeth a Chydraddoldeb yr holiadur effaith. Mae'r adran hon yn gofyn i gwsmeriaid adrodd ar nifer y perchnogion/cyfarwyddwyr/rhanddeiliaid sy'n dynodi eu bod yn dod o gefndir Du neu Leiafrifoedd Ethnig. Mae grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig yn cynnwys pobl sydd o bosibl yn wynebu rhwystrau oherwydd eu tarddiad ethnig, o ran cael mynediad at gyfleoedd yng Nghymru. Nid yw'r cwestiynau tarddiad ethnig yn ymwneud â chenedligrwydd, man geni neu ddinasyddiaeth. Maent yn ymwneud â grwpiau ethnig eang.
Cyfran y perchnogion/cyfarwyddwyr/rhanddeiliaid yn y busnesau y gwnaethom eu cefnogi sy'n dynodi bod ganddynt anabledd hirdymor.	Mae'r adran hon yn gofyn i gwsmeriaid adrodd ar nifer y perchnogion/cyfarwyddwyr/rhanddeiliaid sy'n ystyried eu bod yn anabl. Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn cydnabod bod pobl anabl yn bobl gyda namau sy'n anabl oherwydd rhwystrau (ymagweddol, amgylcheddol a sefydliadol) sy'n eu hatal rhag cymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar fywyd.

Mewn termau syml, nid yr anallu i gerdded sy'n atal person rhag cael mynediad i adeilad heb gymorth, ond grisiau sy'n anhygyrch i ddefnyddiwr cadair olwyn.

Mewn geiriau eraill, nam cymdeithasol yw 'anabledd'. Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn gofyn i gymdeithas gael gwared ar y rhwystrau er mwyn sicrhau cydraddoldeb i bawb. Mae'r Model hwn yn cael ei gydnabod gan bobl anabl a chafodd ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn 2002. Ceir rhagor o wybodaeth ar <http://www.disabilitywales.org>

Cyfran y benthyciadau datblygu eiddo a ddefnyddiwyd i gefnogi'r gwaith o adeiladu unedau tai fforddiadwy.

Nifer yr unedau a adroddwyd gan gwsmeriaid a fydd yn diwallu'r meini prawf ar gyfer tai fforddiadwy.